# PWY OEDD JAC?

*Arolwg o'r ymchwil ddiddiwedd i geisio datrys y dirgelwch* – **Dewi Williams**

Nid yw'n ymddangos fod unrhyw leihad yn y diddordeb, sydd yn obsesiwn gan gymaint yn y llofrudd anhysbys a fu'n gyfrifol am yr ysgelerdra yn Whitechapel, Llundain yn y flwyddyn 1888. Adnabyddir ef yn unig odditan y ffugenw Jack the Ripper ond, tros y blynyddoedd, bu ymdrechion lu i geisio sefydlu pwy ydoedd.

Damcanwyd yn ddibendraw mewn erthyglau papur newydd, llyfrau, rhaglenni teledu a ffilmiau. Mae dau gylchgrawn arbennig wedi eu cysegru i'r pwnc a myrdd o gyfeiriadau ar y we. Prysuraf i ychwanegu nad wyf yn un o'r 'Ripperolegwyr' tanbaid; rhyw ddiddordeb wrth basio,fel petae, sydd gennyf yn y testun a'i ddilynwyr.

Y ffeithiau yn syml yw fod pum putain wedi eu llofruddio rhwng Awst 31 a Thachwedd 9 yn y warin o aliau cul a thywyll a frithai yr ardal ddosbarth gweithiol yma o ddwyrain Llundain. Yn achos tair ohonynt bwtsieriwyd eu cyrff yn giaidd gan dynnu organau arbennig allan; neilltuwyd y driniaeth waethaf ar gyfer yr olaf, sef Mary Anne Kelly druan a fu, mae'n debyg, yn byw yn sir Gaerfyrddin, ac ymhlith y gymdeithas Wyddelig yng Nghaerdydd cyn symud i Lundain.

Yn 1993 rhoddwyd sylw i'r dimensiwn Cymreig mewn rhaglen yn y gyfres Hel Straeon. Trafodwyd yr honiad mai meddyg o Aberffraw o'r enw William Evans Thomas oedd y llofrudd. Ymarferai ei grefft yn Nwyrain Llundain ond dychwelodd gartref i Bryn Goleu at ei dad oedd yn fferyllydd a phostfeistr yn y pentref. Yr oedd yn amlwg yn dioddef o salwch meddwl a chyflawnodd hunan laddiad ym Mehefin 1889 trwy lyncu asid. Claddwyd ef yn ôl yr arfer mewn bedd anhysbys ym mynwent Aberffraw.

Tyfodd traddodiad fod y meddyg yn dychwelyd adref rhwng y llofruddiaethau i osgoi sylw yr heddlu ac am flynyddoedd bygythiwyd Jac Ripa ar y plant gan rieni os na fyhafient.

Mewn erthygl ddiddorol yn un o rifynnau Golwg mis Ebrill y flwyddyn hon, cyfeiriodd Lyn Ebenezer at feddyg arall o Gymro yr amheuwyd ef yn hollol ddisail o fod yn euog o'r llofruddiaethau. Ei enw oedd Morgan Davies, llawfeddyg ac obstetrydd yn y London Hospital yn Whitechapel. Yn Whitechapel y ganwyd ef ond yr oedd ei wreiddiau yn Sir Aberteifi ac yn Llangwyryfon y claddwyd ef yn 1920.

Yr hanes yw i gymeriad amheus o'r enw Robert Donston Stephenson dystio i'r heddlu ei fod yn drwgdybio mai Dr Davies oedd y llofrudd. Honnai Stephenson iddo gyfarfod Davies tra yr oedd ef yn glaf yn yr ysbyty ac i Davies actio mewn dull dramatig tros ben sut y credai fod y llofrudd yn lladd ei brae. Yr awgrym yw wrth gwrs mai dim ond y llofrudd gwirioneddol allai ail greu'r weithred mor realistig.

Darganfu Lyn Ebenezer fod Morgan Davies yn Gymro pybr, cenedlaetholwr, eisteddfotwr ac aelod o Gymdeithas y Cymmrodorion.

Yn 1987 cyhoeddwyd *Jack the Ripper – the Bloody Truth* gan Melvin Harris. Ynddo awgryma fod lle da i gredu mai Stephenson oedd y llofrudd ac mai ymgais ganddo i dynnu amheuaeth oddi ar ei hun oedd 'pardduo enw dyn da a pharchus' fel y noda Lyn Ebenezer, a ddigwyddodd yn achos Morgan Davies.

Yn un o'r tri llyfr newydd ar y pwnc a



*Robert Donston Stephenson.*

gaiff eu cyhoeddi yn ystod yr Hydref mae awdur o'r enw Ivor Edwards yn mynd yn ôl at Stephenson fel ei ddewis o'r llofrudd. Datblyga'r thema fod Stephenson yn ymhel â'r ddewiniaeth ddu a bod y pum putain wedi eu llofruddio o fewn radiws o bum can llath i'w gilydd. Trwy gysylltu y safleoedd gyda llinellau, cylchoedd a thrionglau geometrig gwelir ffurfio sumbol ocwlt a fwriedid fel teyrnged i Satan gan y llofrudd. Honna Edwards ymhellach fod yr organau megis y galon, arennau, genitalia a'r groth a rwygwyd allan, yn rhai a ddefnyddid yn rheolaidd yn nefodau y ddewiniaeth ddu.

Maentumiwyd o'r cychwyn gan yr esbonwyr fod y llofrudd yn meddu ar ddigon o wybodaeth feddygol i'w alluogi i gyflawni yr anfadwaith yma ac yn sicr ddigon defnyddiai Stephenson deitl doctor. Diflannodd ei wraig yn Brighton lle trigai yn 1887 a diflannodd yntau yn 1904 wedi cyhoeddi ei gyfrol ddiweddaraf ar ei astudiaeth o'r ocwlt.

Tybiaf na fydd damcaniaethu mor eithafol â hyn wrth fodd y 'Ripperolegwyr' safonol ac y cyffelybant ef i'r thesis a gyflwynwyd gan ymchwilydd o'r enw Stephen Knight yn *Jack the Ripper – the Final Solution* yn 1976. Dadleua'r awdur fod yr holl hanes yn gynllwyn ar y cyd gan lywodraeth y dydd tan arweiniad y prif weinidog, yr Arglwydd Salisbury, a brawdoliaeth y Seiri Rhyddion i gael gwared â sgandal yn ymwneud â'r teulu brenhinol. Honiad Knight yw fod mab Edward Tywysog Cymru, sef Albert Edward (y Tywysog Eddie) wedi tadogi plentyn â geneth gyffredin ac yn waeth na hynny wedi ei phriodi yn gyfrinachol a hithau yn Gatholig! Yr oedd y puteiniaid, yn arbennig Mary Kelly, yn gydnabyddus â'r gyfrinach ac wedi ceisio blacmelio rhai o'r mawrion. Rhaid felly oedd eu distewi a dewiswyd neb llai na Syr William Gull, un o feddygon yr ardderchocaf Fictoria i gyflawni hyn.

Ymddengys mai prif ffynhonnell Knight oedd gŵr o'r enw Joseph Sickert a honnai ei fod yn fab anghyfreithlon i'r arlunydd enwog William Sickert ac mai ei fam oedd y ferch anghyfreithlon a dadogwyd gan y Tywysog. Yng nghwrs y trafod gyda Joseph daeth Knight i'r casgliad fod mwy i'r hanes na hyn a'i ddyfarniad terfynol oedd fod William Sickert yn ogystal wedi chwarae rhan flaenllaw, megis annog y puteiniaid i'r goets gaeëdig lle lladdwyd hwy gan William Gull. Ymddengys fod gan Sickert, yr arlunydd, obsesiwn gyda'r llofruddiaethau ac awgrymir fod nifer o'i beintiadau yn adlewyrchu yr erchylltra. Wedi cyhoeddi llyfr Knight fodd bynnag, gwadodd Joseph Sickert y cwbl a chyfaddef mai ffrwyth ei ddychymyg oedd yr holl hanes.

Mae damcaniaeth Stephen Knight yn nodweddiadol o'r damcaniaethau cynllwyn a esgorwyd, mae'n debyg, gan lofruddiaeth John F. Kennedy ac a fu mor boblogaidd am sawl blwyddyn. Defnyddiwyd y ddamcaniaeth fel sail i ymgais ddiweddaraf Hollywood i bortreadu'r hanes, sef y ffilm *From Hell*. Nid oes rhithyn o dystiolaeth i gysylltu'r teulu brenhinol â'r llofruddiaethau er teg yw nodi fod sgandal cysylltiedig ag ymweliadau tybiedig y tywysog Albert Edward â phuteindy gwrywgydiol yn 1889, ac yr honnir iddo farw o siffilis yn 1892. Serch y dŵr oer a daflwyd ar y ddamcaniaeth gan Joseph



*Braslun 1880au o'r llofrudd.*

Sickert, mae'r awdures nofelau ditectif Patricia Cornwell yn paratoi rhaglen yng nghyfres Omnibus y BBC a'i chasgliad yw mai William Sickert oedd Jack the Ripper.

Yn 1993 ymateb yr un mor llugoer a gafwyd gan yr arbenigwyr adeg cyhoeddi dyddiadur honedig masnachwr cotwm o Lerpwl o'r enw James Maybrick. Ynddo mae Maybrick, a wenwynwyd gan ei wraig y flwyddyn ganlynol, yn cyffesu mai ef oedd llofrudd Whitechapel. Consensws y 'Ripperolegwyr' yw mai ffug ydyw. Eto mae gan y dyddiadur ei amddiffynwyr a gred yn ddiysgog yn ei wirionedd.

Beth sydd i gyfrif am dynfa yr holl hanes erchyll yma sydd wedi cael yr holl ddylanwad tros y blynyddoedd ar ddychymyg cymaint o ymchwilwyr a haneswyr amatur? Mae'n amlwg fod y cysylltiad rhwng y Ripper â Llundain cyfnod Sherlock Holmes gyda'i niwloedd, ffeuau opiwm ger yr afon, llechfannau'r puteiniaid a throseddwyr yn gyfochrog â chyfoeth a phendefigiaeth y pen gorllewinol yn destun deniadol. I'r Llundeinwyr yn eu plith mae'r hanes yn rhan o'u hetifeddiaeth. Eu breuddwyd yw darganfod y gronyn o dystiolaeth ddiflanedig a brofa yn ddigamsyniol pwy ydoedd Jac, y llofrudd cyfres, unwaith ac am byth. Gan fod hynny yn annhebyg bellach, ni ragwelaf ddim ond parhad eu hymchwil obsesiynol.